PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 45 Tachwedd 6, 2025 50c.

## Newyddion da o Geredigion

Yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog y cynhaliwyd Sul Sbesial Cyfundeb Ceredigion unwaith eto eleni, ac fe gafwyd digwyddiad bywiog a chofiadwy iawn a hynny ar y Sul olaf o fis Medi sef yr 28ain. Yn y neuadd chwaraeon y cynhaliwyd gwasanaethau addolgar a hwyliog y dydd. Roedd oedfa'r plant o dan lywyddiaeth Karine Davies, ac roedd y Parchg Carys Ann yng ngofal y 'Power Point'. Golygai hynny y gellid darllen geiriau'r emynau yn rhwydd ac fe ddangoswyd ffilm am yr hinsawdd a baratowyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Roedd band yn arwain yr addoliad a chafwyd cymorth Rhian Evans, Capel Glynarthen wrth yr allweddellau, Angharad John a Dafydd y Drymiwr o Gapel Pencae, Llanarth.







### Cyfraniadau

Cafwyd llwyddiant ysgubol eleni eto wrth i Ysgolion Sul y Cyfundeb ddod at ei gilydd i addoli a chanu mawl i'r Arglwydd. Yr ysgolion Sul gymerodd ran yn y gwasanaeth oedd Y Tabernacl, Pencader; Glynarthen; Llwyncelyn; Pencae, Llannarth a Pisgah, Talgarreg. Wedi'r gwasanaeth aeth y plant i fwynhau holl atyniadau'r gwersyll. Hoffem fynegi ein gwerthfawrogiad mawr am y cymorth ariannol a dderbyniwyd gan Bwyllgor Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd a Chyfundeb Ceredigion. Tynnwyd lluniau o wasanaeth y plant a'u gweithgareddau gan Barry Adams, drwy ganiatâd y rhieni.

### Oedolion

Yn syth ar ôl oedfa'r plant cafwyd gwasanaeth pellach ar gyfer yr oedolion. Cyflwynwyd neges neilltuol gan Ffred Ffransis, ac fe gyfeiliodd Neville Evans, Capel Neuaddlwyd i'r emynau ar yr allweddell. Karine Davies oedd yn llywyddu a'r Parchg Carys Ann yng ngofal y 'Power Point'. I gloi'r gweithgareddau fe gafwyd te a chyfle i sgwrsio cyn bod y plant yn ymuno gyda ni. Diolch i bawb fu'n rhan o'r trefnu fel ein bod yn cael Sul Sbesial eithriadol o lwyddiannus unwaith eto eleni. Gweddïwn am barhad ein hysgolion Sul er mwyn sicrhau disgyblion i'r Arglwydd Iesu Grist i'r dyfodol.

**Carys Ann**

## Her newydd i ni fel eglwysi

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar nos Fercher 15 Hydref, dan y teitl 'Cymru a'r Gair,' wedi ei drefnu gan Siân Wyn Rees (Trefnydd Cymdeithas y Beibl yng Nghymru). Da oedd gweld cynrychiolaeth dda o blith yr enwadau Cymraeg yn bresennol, er mai cyfarfod Saesneg oedd hwn i bob pwrpas. Roedd yn cael ei hysbysebu fel 'dathliad o waith Cymdeithas y Beibl yng Nghymru.'

Roedd Dr Andrew Ollerton yn cyflwyno dau adnodd sydd newydd eu rhyddhau ganddo, sef y 'Bible Course' ar ei newydd wedd – i'w ryddhau yn y Gymraeg yn y flwyddyn newydd, a llyfr arall ganddo sy'n edrych ar 'saith pwnc anoddaf y Beibl', sef *God's Book*.

*parhad ar dudalen 2*



# Argyfwng gwleidyddol Madagascar

*Ar 25 Medi eleni, dechreuodd cyfres o brotestiadau torfol ym Madagascar, gyda phobl ifanc, neu'r Gen-Z fel y maent yn cael eu galw, yn eu harwain.*

Tlodi cyffredinol, toriadau cyson ac aml yn y cyflenwad trydan a phrinder dŵr oedd yr ysgogiad i fynd allan i'r strydoedd, a chyda pob diwrnod oedd yn pasio yr oedd y torfeydd yn cynyddu, a'r sefyllfa yn dod yn fwy peryglus.

O weld hyn, penderfynodd Geraint Tudur anfon neges at gysylltiad personol ym Madagascar yn holi beth oedd yn digwydd, a daeth yr ateb canlynol gyda'r troad. (Nid ydym yn datgelu enw'r sawl a'i hanfonodd am resymau diogelwch.)

Annwyl Geraint,

Ydy, mae Madagascar wedi profi aflonyddwch ers 25 Medi. Mae'r boblogaeth yn ddig oherwydd torri pŵer di-ben-draw a phrinder dŵr yfed ym mhob dinas a thref. Nid yw'r llywodraeth, ac yn enwedig Arlywydd y Wladwriaeth, Mr Andry Rajoelina (sef yr un a wthiodd Marc Ravalomanana o'r Arlywyddiaeth yn 2009), erioed wedi gweithredu'r rhaglenni a addawsant. Mae'r sefyllfa gymdeithasol ac economaidd wedi gwaethygu'n sylweddol. Mae Madagascar bellach ymhlith y gwledydd tlotaf yn y byd.

Ar 25 Medi, cynhaliwyd protest fawr dan arweiniad y genhedlaeth ifanc (Cenhedlaeth Z/*Gen Z*) yn Antananarivo ac ym mron pob tref fawr ar yr ynys. Daeth y brotest i ben gyda saethu gan y lluoedd diogelwch (a elwir yn *Gendarme*) gan ddefnyddio nwy dagrau a bwledi rwber, gan arwain at anafiadau a hyd yn oed farwolaethau. Bu hefyd achosion o ysbeilio. Ers y diwrnod hwnnw, mae'r protest wedi dwysáu. Mae mwy o anafiadau a marwolaethau wedi digwydd.

Ond ar ddydd Sadwrn 11 Hydref, cyhoeddodd y milwyr, dan arweiniad rhai cadfridogion ac uwchswyddogion, y byddant yn cefnogi'r protestwyr. Ni fydd rhagor o drais, a rhoddir sicrwydd o ryddid mynegiant.

Ar ôl penodi Prif Weinidog a chabinet newydd, credodd yr Arlywydd y byddai hynny'n ateb galwad y bobl ac yn tawelu eu dicter. Ond yn hytrach, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu. Mae'r bobl (a'r gwleidyddion) dan arweiniad Cenhedlaeth Z yn galw ar yr Arlywydd i ymddiswyddo. Gwyddom ei fod, gyda chefnogaeth llywodraeth Ffrainc, a anfonodd awyren llu awyr i'w alluogi i ddianc, wedi gadael y wlad ddoe (dydd Sul, 12 Hydref). Mae rhai o arweinwyr blaenaf ei lywodraeth hefyd wedi gadael y wlad.



*Antananarivo, prifddinas Madagascar (Llun: Richard Outram/Undeb yr Annibynwyr)*

Ar hyn o bryd, mae'r protestio yn parhau ac mae'r fyddin wrth y llyw. Nid *coup* yw hyn gan nad yw'r Arlywydd, er ei fod yn absennol o'r wlad, wedi ymddiswyddo (eto). Mae'r fyddin wedi cyhoeddi mai eu bwriad yw diogelu hawl y bobl i fynegi eu hunain yn rhydd.

Bydd yr Arlywydd yn rhoi araith heno (nos Lun, 13 Hydref). Rhaid aros a gweld.

Ym mhob un o'r pethau hyn, gofynnwyd i Gyngor Cristnogol Madagascar (FFKM) gyfryngu. Nid wyf yn siŵr a all wneud hynny gan fod rhai arweinwyr eglwysig wedi bod yn gefnogol i'r gyfundrefn.

Gweddïwch drosom, os gwelwch yn dda.

Diau y bydd llawer ohonom yn gwneud hynny.

**Geraint Tudur**

Cyhoeddir yr ail erthygl yr wythnos nesaf.

# Her newydd i ni fel eglwysi – parhad

## Diwygiad tawel

Cafwyd cyflwyniadau gan Dai Woolridge o'i farddoniaeth lafar ogleisiol a heriol. Soniwyd am lwyddiant yr ap ffonau symudol Cymraeg, Ap Beibl, a'r llu o adnoddau sydd arno bellach. Ond efallai mai'r prif ffocws oedd y 'diwygiad tawel'. Yn 2018 ac eto yn 2024 roedd Cymdeithas y Beibl wedi defnyddio YouGov i ymchwilio i sefyllfa'r eglwysi Cristnogol yng Nghymru a Lloegr. Holwyd dros 19,000 o unigolion am eu harferion yn mynychu eglwysi, darllen y Beibl, gweddïo a'u hagweddau cymdeithasol, ac mae'r canlyniadau wedi bod yn annisgwyl a dweud y lleiaf. Yn y pum mlynedd gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sy'n mynychu addoliad, yn arbennig ymhlith pobl ifanc rhwng 18 a 24 mlwydd oed – dynion ifanc yn bennaf. Yr eglwysi Pentecostaidd a'r eglwys Gatholig sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf. Mae cynnydd hefyd wedi bod yn nifer y bobl sy'n darllen y Beibl yn rheolaidd ac yn gweddïo.

## Heriau

Ond roedd heriau hefyd. Mae traean o'r bobl ifanc a holwyd yn cyfaddef eu bod yn stryglo i ddeall a dehongli rhannau o'r Beibl. Felly mae'n amlwg fod yr adnoddau newydd y soniais amdanynt




uchod yn hynod bwysig. Roedd her i ninnau Gristnogion hŷn hefyd – i fod yn bobl sydd yn gallu helpu'r genhedlaeth newydd o gredinwyr i ddeall a byw yr hyn sydd yn yr Ysgrythur. Roedd Andrew Ollerton yn defnyddio hanes Philip a'r Ethiopiad yn Llyfr yr Actau i gyflwyno'r her hon i'r eglwysi. Cwestiwn yr Ethiopiad oedd, 'Sut alla i ddeall heb i rywun ei esbonio i mi?'

Roedd rhywun yn gadael y cyfarfod yn ymwybodol iawn fod yna symudiad newydd ar droed, ond yn gorfod gofyn 'Ydyn ni fel eglwysi ac enwadau Cymraeg yn agored ac yn barod ar gyfer y newidiadau hyn?'

**Arfon Jones**

Yr Adran Gydenwadol

TACHWEDD 6 2025 RHIF 245

# Ail-lansio'r Stafell Fyw – helpu pobl i herio alcoholiaeth

Lle bynnag yr awn y dyddiau hyn, bydd disgwyl bod bar alcohol ar gael, gan dybio nad yw cymdeithasu yn bosibl heb alcohol. I genhedlaeth iau, bydd rhannu cyffuriau neu sylweddau hefyd yn rhan o awyrgylch yr achlysur. Deallwn fod canran gynyddol o incwm y gwasanaethau a gynigir gan feddygfeydd ac ysbytai yn cael ei gwario ar effaith alcohol a sylweddau niweidiol. Gall hyn fod oherwydd niwed i gyrff pobl neu yrru ceir dan ddylanwad y cyffuriau sy'n achosi damweiniau difrifol. Mae'n dda felly sôn am ddatblygiadau yn ein hymateb i'r rhai sy'n dioddef effeithiau niweidiol y sylweddau hyn ar ein pobl.

Bydd darllenwyr *Cenn@d* yn gyfarwydd â'r Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill ynghyd â gwasanaeth y Stafell Fyw. Nid amcan yr erthygl hon yw sôn am orffennol y cyrff hyn, ond dweud fod ein Prif Weithredwr, Wynford Ellis Owen, wedi profi ei hun yn ymgynghorydd effeithiol ac yn cynnig arweiniad a thriniaeth i lu o glientiaid. Bydd yr enwadau crefyddol yng Nghymru yn cyfrannu'n flynyddol i gefnogi rhan o'r gwaith, a hynny i gynnig gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr Efengyl, gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd sydd yn dioddef o wahanol gyflyrau.

Brynhawn Sul, 26 Hydref, cynhaliwyd lansiad y Stafell Fyw yng nghapel Eglwys y Crwys, Caerdydd, yn nodi bod y gwasanaeth ar ei wedd newydd yn gweithio allan o ystafelloedd yng nghapel y Crwys. Wynford Ellis Owen lywyddodd y cyfarfod, gan rannu ei brofiad personol cyn gwahodd y Farwnes Ilora Finlay, un o noddwyr y Stafell Fyw ac Athro ym maes gofal lliniarol yn Ysbyty Felindre, Caerdydd, i sôn am y modd y mae alcoholiaeth yn herio cynifer o deuluoedd ac yn achos marwolaeth llawer. Nododd y gost i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a thu hwnt, ac y gellid arbed llawer o arian oddi ar gyllideb y GIG pe byddai modd cynnig gwellhad i'r sawl sy'n dioddef o effaith niweidiol alcoholiaeth a dibyniaeth ar gyffuriau. Pwy all fesur caethiwed i grafangau gwahanol fel pornograffi a gamblo, a'r gost i'r gwasanaethau cymdeithasol? Yn bennaf oll, mae'r nifer sy'n dioddef o glefyd dibyniaeth yn frawychus a'u bywydau teuluol a chymdeithasol yn arswydus.

Rhannwyd anerchiadau byrion gan y Parch. Denzil John (Cadeirydd y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill), Thomas Williams (Arweinydd Eglwys y Crwys) a'r Parch. Ifan Roberts (Cadeirydd Cynnal a thrysorydd y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill). Cyfeiriwyd at y modd y mae'r cymunedau sy'n cael eu cynrychioli yno'n awyddus i weld ail-lansiad y Stafell Fyw yn ennill tir ac yn hywyddo bywyd iach i fwy o bobl.

Cadeirydd Cyfeillion y Stafell Fyw yw Arwel Ellis Owen, ac ategodd neges y Trysorydd fod angen ffynonellau incwm newydd ar y Cyngor Alcohol. Mae gwir angen cyfraniadau unigol eto, a hefyd fod busnesau a chwmnïau'n derbyn y cyfrifoldeb o gynorthwyo gydag ariannu'r math hwn o waith.





Cafwyd gair o brofiad gan yr Athro Colin Powell (un o'r ymddiriedolwyr) yn sôn fel y bu i Stafell Fyw achub ei briod a'i briodas. Soniodd Carol Hardy, un a fu'n gweithio gyda Wynford yn y Stafell Fyw nes iddi ymddeol, am ei phrofiad yn dathlu'r blynyddoedd y bu'n rhydd o'r gaethiwed i alcohol. Cafwyd cyfraniadau ar fideo gan Meg Jones, chwaraewraig rygbi broffesiynol, yn adrodd hanes ei mam yn marw o effaith alcoholiaeth, a'i bod hithau am hyrwyddo'r Stafell Fyw yn ariannol. Noddwr arall yw'r gantores Lleuwen Steffan, ac roedd hithau wedi anfon neges ar ffilm o Lydaw yn diolch am y cymorth a gafodd yn bersonol.

Rhannodd y bardd Aneirin Karadog neges hyfryd ac roedd wedi llunio englyn yn sôn am y Stafell Fyw yn troi'r llanw:

> Un diferyn o adferiad a dyf
> yn don, gyda'r troad
> daw llw'r llanw gall gwellhad
> gyrraedd yn fôr o gariad.

Daeth gweithgareddau'r prynhawn i ben gyda the blasus wedi ei drefnu gan wragedd y Crwys a rhai o gleientiaid y Stafell Fyw.

Yn yr hwyr, trefnwyd Cymanfa Ganu yng nghapel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, a chroesawyd pawb i'r digwyddiad gan y Parch. Denzil John. Y Parch. John Derek Rees a rannodd ddefosiwn agoriadol i'r noson. Yna cafwyd canu hwyliog, gyda'r gynulleidfa'n gwerthfawrogi cyfraniad yr arweinydd Eilir Owen Griffiths, gyda David Geoffrey Thomas yn cyfeilio ar yr organ.

Cafwyd datganiadau hefyd gan nifer o gorau: Côr Hen Nodiant, dan arweiniad Catrin Williams; Côr Ifor Bach, dan arweiniad Eilir Owen Griffiths; a chôr Eglwys Bethlehem, Gwaelod y Garth. Canodd côr Eglwys Bethlehem emyn heddwch gan y diweddar Barch. Robert Owen, tad Arwel a Wynford, i gerddoriaeth newydd gan Eric Jones. Gwerthfawrogwyd datganiad cyffrous gan David Thomas o'r 'Toccata' gan Widor, ac roedd y noson ar ei hyd yn ysbrydoledig.

Nodwyd bod cyfle ar y noson i gyfrannu at goffrau'r Stafell Fyw a bod modd gwneud hynny ar lein hefyd.

*Denzil I. John*

# Y Pab, y Fatican a'r Hiwgenot o Grangetown

## Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn i gyfarfod â'r Pab yn y Fatican i lofnodi dogfen ddiwygiedig y *Charta Oecumenica*

Ar 5–6 Tachwedd 2025 bydd Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yn ymweld â'r Fatican ar gyfer gwrandawiad gyda'r Pab Leo. Nod y daith yw llofnodi a lansio'n swyddogol ddogfen ddiwygiedig y *Charta Oecumenica*. Mae hwn yn ddatganiad pwysig sy'n cadarnhau ymrwymiad eglwysi Cristnogol Ewrop i undod, ac wedi'i baratoi ar y cyd â'r Conference of European Churches (CEC).

Mae'r *Charta Oecumenica* yn amlinellu'r alwad gyffredin i gymunedau Cristnogol Ewrop gerdded gyda'i gilydd mewn ffydd, gwasanaeth ac adferiad. Bydd Dr Llwyd yn cynrychioli eglwysi Cymru yn y seremoni, gan ymuno ag arweinwyr o bob rhan o'r Cyfandir i adnewyddu eu hymrwymiad i ddeialog, heddwch a dealltwriaeth rhwng traddodiadau Cristnogol amrywiol.



**Taith o Ffydd a Chymod?**
I Dr Llwyd, mae'r foment hon yn un o bwysigrwydd dwfn a phersonol. Roedd ei gyn-deidiau'n Hiwgenotiaid – Protestaniaid a orfodwyd i ffoi i Lundain o Ffrainc yn y 17eg ganrif oherwydd erledigaeth gan yr Eglwys Gatholig.




"Mae cael cyfarfod â'r Pab fel disgynnydd i'r rhai a orfodwyd unwaith i ffoi rhag erledigaeth grefyddol yn brofiad sy'n gwneud imi deimlo'n ostyngedig iawn," meddai Dr Llwyd. "Mae'n dangos pa mor bell rydym wedi dod — bod cymod, a fu unwaith yn amhosibl, bellach yn realiti byw yng nghorff Crist. Nid unffurfiaeth yw undod Cristnogol, ond mynegiant allanol o gariad Duw a chenhadaeth gyffredin yr Eglwys yn y byd heddiw."

**Undod Cristnogol yn Weithred**
Mae'r *Charta Oecumenica* yn ailgadarnhau ymrwymiad eglwysi Ewrop i gydweithredu ym meysydd cyfiawnder cymdeithasol, adeiladu heddwch, cyfrifoldeb amgylcheddol a deialog rhyng-ffydd. I eglwysi Cymru, mae'n cynrychioli parhad traddodiad ecwmenaidd cyfoethog, yn ogystal ag adnewyddu diben cyffredin o fewn cymuned Gristnogol Ewrop.

"Mae Cytûn wedi gweithio ers blynyddoedd i feithrin dealltwriaeth a phartneriaeth rhwng enwadau Cristnogol Cymru," meddai Dr Llwyd. "Mae fy nhaith i Rufain yn tanlinellu bod y weledigaeth hon o undod yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'n ffiniau – mae'n rhan o alwad gyffredin Ewropeaidd a byd-eang."


**Ynghylch Cytûn**
Mae Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru yn dwyn ynghyd enwadau ac elusennau Cristnogol ledled Cymru er mwyn hyrwyddo undod, tystiolaeth gyhoeddus a gwasanaeth ar y cyd yn enw Crist, gan geisio byw'r undod y gweddïodd Iesu drosto: "fel y byddant oll yn un" (Ioan 17:21).

*Iestyn Davies*
*Swyddog Polisi Cytûn*
E-bost: cynan@cytun.cymru
Gwefan: www.cytun.cymru



## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi Llen 4 – Ymson Rebeca

Yn fy ieuenctid ro'n i'n brydferth, ond mae prydferthwch yn gallu diflannu mor gyflym â niwl y bore. Yr hyn sy'n aros yw ein dewisiadau.

Cofiaf y diwrnod pan welais y dieithryn, gwas Abraham, yn sefyll wrth y ffynnon. Rhoddais ddŵr iddo a chodi peth wedyn o'r ffynnon i'w gamelod. A dyna'r arwydd iddo, mae'n debyg, mai amdanaf fi yr oedd yn chwilio. Roedd Duw wedi fy newis ac wedi gweld yr addewid ynof fi.

Rhoddodd hwn dlysau imi ac wrth weld y breichledau'n euro fy ngarddwrn, cododd cyffro o'm mewn. Rhedais adre at fy nheulu. Gofynnwyd imi a fyddwn yn barod i adael fy nghartref, a daeth yr ateb cadarnhaol o'm genau cyn imi gael eiliad i feddwl. Gwyddwn fod rhywbeth wedi fy nghymell i fynd at y ffynnon y diwrnod hwnnw. Credais mai dyma gynllun Duw ar fy nghyfer.

Ac yna, un noson, gwelais Isaac yn cerdded tuag ataf. Roedd yn dal ac yn olygus, a dechreuodd fy nghalon guro'n gyflymach. Taenais liain dros fy wyneb, nid oherwydd bod arnaf ofn, ond oherwydd fy mod wedi fy fferru i'r fan gan edmygedd. Roedd rhyw dawelwch yn pelydru ohono ac anwyldeb yn ei wedd. Aeth â fi i mewn i'r babell ac fe gerais i ef ac yntau minnau. Roedd popeth yn dda, am gyfnod.

Aeth y blynyddoedd heibio. Roedd un peth ar goll – plentyn. Wylais droeon, ac ymbilio ar Dduw i'm helpu, ond ddigwyddodd dim. Bu farw Sara ac yna Abraham. Gweddïodd Isaac drosof yn daer. Yna'n wyrthiol teimlais y symud tu mewn imi – nid un babi bach ond dau! Roedd pedair llaw fechan yn dyrnu fy stumog a hynny'n peri poen.

Yna dywedodd Duw y byddai un o fy meibion yn gryfach na'r llall ac mai'r hynaf o'r ddau fyddai'n was i'r ieuengaf. Doeddwn i ddim yn deall ar y dechrau, ond roedd y rhaniad rhwng y ddau fab wedi digwydd, hyd yn oed cyn iddynt gael eu geni.

Ddywedais i ddim wrth Isaac, ond yn union wedi i'r bechgyn gael eu geni, roeddwn yn caru un yn fwy na'r llall. Hoffwn y tawelwch tu mewn i Jacob, ond ffafriai Isaac y cryfder yn y mab arall, Esau. Wrth iddynt dyfu, daeth yn amlwg mai'r awyr agored oedd yn mynd â bryd Esau, tra byddai Jacob yn myfyrio'n aml a'i feddwl yn graff. Gwyddwn mai Jacob oedd yr un a fyddai'n cyflawni gwaith Duw.

Ac yntau'n ddall, roedd dyddiau Isaac yn dirwyn i ben. Daeth yn amser iddo fendithio'r mab hynaf. Rhoddais fy meddwl ar waith i gynllwynio y byddai Jacob yn derbyn y fendith yn lle Esau. Byddai Jacob yn gwisgo dillad Esau ac yn mynd â'r cig gorau posib at Isaac. Paratois innau bryd bwyd amheuthun. Credwn fy mod yn gwneud y peth iawn, a chafodd Jacob ei fendithio yn lle Esau. Feddyliais i ddim y byddai hynny'n newid popeth. Roedd Isaac ac Esau'n gynddeiriog. Bu'n rhaid imi yrru Jacob i ffwrdd at fy mrawd, Laban. Twyllais fy hun mai ei yrru i gael gwraig yr oeddwn ac y byddai'n dychwelyd. Ond welais i mohono fyth wedi hynny.

Nawr rwy'n hen ac yn teimlo pwysau fy ngweithredoeddd ar f'ysgwyddau. Byddaf yn holi fy hun yn aml beth fyddai wedi digwydd pe na byddwn i wedi ymyrryd? Oeddwn i'n anghyfrifol neu a oedd Duw wedi fy nefnyddio i gyflawni ei ewyllys?

Bu fy mywyd yn gymysglyd: yn llawn o ffydd ac amheuaeth, o gariad a siom. Cheisiais i ddim ffafriaeth imi fy hun, ond gwn yn awr imi wneud dewisiadau a fyddai'n dod ag anfri arnaf. Yn y dyfodol, bydd pobl yn gweld fy nhwyll yn hytrach na'm dymuniad i fod yn ffyddlon i lais Duw. Dyna fy nhristwch i.

**Holi**

- Ydych chi'n gweld Rebeca fel person dewr neu fel person ffôl? Beth fyddech chi wedi'i wneud yn ei sefyllfa hi?
- Sut wyddom ni ydyn ni'n gwneud y dewisiadau cywir ac yn gweithredu yn ôl dymuniad Duw? Oes mantais mewn bod yn amyneddgar ar dro neu a ddylem wrando ar ein greddf fewnol?
- Ydych chi'n tybio bod ewyllys Duw yn dibynnu ar gydweithrediad meidrol, neu a yw ewyllys Duw yn cael ei gyflawni, beth bynnag a wnawn ni?

**Gweddi**

Dymunwn ddewrder i ddilyn y llwybr cywir, hyd yn oed os yw hynny'n peri ofn inni. Dymunwn allu ymddiried yn Nuw, hyd yn oed os yw hynny'n teimlo'n anodd. Dymunwn wrando ar lais yr Iôr, hyd yn oed os nad ydym yn siŵr o'r canlyniadau. Dymunwn dderbyn bod cynllun Duw ar ein cyfer yn rhyfedd ac yn rhyfeddol weithiau. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 9 Tachwedd, am 7:30yh – Sul y Cofio**
Bydd Nia Roberts yn ymweld â chofebau'r Rhyfel Mawr yng Ngwlad Belg i gyflwyno rhaglen arbennig i nodi Sul y Cofio. Mae milwr o Gymru a fu'n ymladd y Taliban yn Affganistan yn rhannu ei stori ddirdynnol. A chawn berfformiad gan Shân Cothi a mwynhau emynau o addoldai ledled Cymru.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 9 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Rob Nicholls

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 9 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa Sul y Cofio, dan arweiniad Watcyn James, Capel Bangor

# WRTH Y LLYW #6

## Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

Gorchwyl olaf mis Hydref oedd Synod neu Gymanfa'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC) yn y Fenni (18/10). Dechrau da oedd defosiwn agoriadol y Gymanfa dan ofal Swyddog Gweinyddol yr EDU, Maggie: echel ei myfyrdod oedd Jeremeia 17:7. Down yn ôl at hynny yn y man.

Yr emyn agoriadol oedd 'Lord, Thy Church on Earth Is Seeking' gan Hugh Sherlock (1905-1998) sydd yn cynnwys y ddwy linell: 'Teach us all the art of speaking/ with the accent of your love.' Am nodyn ardderchog i'w daro ar ddechrau cynhadledd! Dyna osod cywair call i holl drafodaethau'r dydd. Onid yw'r ffordd mae'r Eglwys yn gwneud penderfyniadau llawn mor bwysig â'r penderfyniadau a wneir ganddi? Wrth ystyried geiriau Sherlock, daeth anogaeth Paul i'm cof: 'Byddwch wresog yn eich serch at eich gilydd fel cymdeithas. Rhowch y blaen i'ch gilydd mewn parch ... Byddwch yn gytûn ymhlith eich gilydd.' (Rhufeiniaid 12:12 a 16).

The United Reformed Church
National Synod of Wales
Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Synod Cenedlaethol Cymru

### Jeremeia

Bu Jeremeia yn fy nilyn o gyfarfod i gyfarfod yn ddiweddar. Gwasanaeth Comisiynu Gwilym yn Arweinydd Tîm 'Angor' Grangetown yn 'The Bay Church', Corporation Road, Caerdydd: testun pregeth y Parchg Ddr Alun Tudur oedd 'Os dywedaf, "Ni soniaf amdano, ac ni lefaraf mwyach yn ei enw", y mae yn fy nghalon yn llosgi fel tân wedi ei gau o fewn fy esgyrn. Blinaf yn ymatal; yn wir, ni allaf.' (Jeremeia 20:9). Yn yr oedfa yn yr Alltwen i ddathlu trigain mlynedd y Parchg Gareth Morgan Jones yn y weinidogaeth, y darlleniad oedd Jeremeia 1:4-10 a'r Parchg Dewi Myrddin Hughes (yntau hefyd yn nodi trigain mlynedd ers ei ordeinio) yn darllen. Yn nefosiwn agoriadol Cymanfa'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Jeremeia 17:7, 'Bendigedig yw'r sawl sy'n hyderu yn yr ARGLWYDD, a'r ARGLWYDD yn hyder iddo.' Felly, Jeremeiaf innau hefyd: Roedd Jeremeia'r proffwyd o dan glo. Yn ei ddiymadferthedd mewn carchar y cyflawnodd Jeremeia ei weithred fwyaf. Gweithred o ffydd fentrus: prynodd ddarn o dir.

### Prynu tir

Prynodd Jeremeia ddarn o dir pan oedd pawb arall yn gwerthu tir, tai, eiddo er mwyn cael dianc. Prynodd ddarn o dir, er mwyn cael aros (Jeremeia 32:9-15). Gweithred fentrus i Jeremeia oedd prynu darn o dir yn ymyl ei gartref yn Anathoth, pan oedd y wlad yn cael ei meddiannu gan y gelyn, Babilon. Cydiodd yn y cyfle oherwydd iddo weld a deall y byddai gweithred obeithiol yn fwy huawdl na'r bregeth orau ar ei dafod. Hawlio yfory er gwaethaf ansicrwydd heddiw yw gorchest ffydd bob amser. Gwelir realiti hyn yn Shotton, tref a chymuned yn Sir y Fflint. Ar stryd fawr Shotton mae eglwys leol Ddiwygiedig Unedig Rivertown, sydd oherwydd nawdd sylweddol gan yr enwad wedi medru gweddnewid adeilad tywyll, lleddf i fod yn ffrwd o olau i'r gymuned. Roedd clywed sôn am holl ystod y gwaith a fu, y ddarpariaeth sydd i a chyda'r gymuned leol yn donic enaid. Mae Rivertown wedi hepgor yr 'e' olaf yn y cymal 'Glory to God in the highest!' Gwelir gogoniant Duw felly yn yr High St.



Mae Rivertown wedi hawlio yfory er gwaethaf ansicrwydd heddiw. Gellid ei hefelychu? Yn sicr, gall eglwysi lleol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg efelychu Rivertown, Shotton. Manteisiwn ar ein Rhaglen Arloesi a Buddsoddi. Mae awgrym o enw newydd, a'r enw newydd yn well: Cynllun Cyfle. Gellid hawlio hyd at £20,000 y flwyddyn am gyfnod o dair blynedd i i gydio yn ein cyfle i greu a chynnal ffydd, gobaith a chariad yn lleol. Mae stori Ebeneser Dyfnant, gardd newydd Llanuwchllyn a Thŷ Croeso, Pwll-trap, San Clêr yn enghreifftiau i'w hefelychu.

Yn ôl un hen chwedl Iddewig, holltwyd dyfroedd y Môr Coch, nid pan estynnodd Moses ei law, ond pan gamodd y cyntaf o'r bobl i'r dŵr. Roedd Duw yn gwybod fod ganddo'r gallu i hollti'r dyfroedd, ond i hollti'r dyfroedd, roedd yn rhaid i Dduw wybod fod y bobl yn gwybod fod ganddo'r gallu i hollti'r dyfroedd! Holltwyd y dŵr o ganlyniad i fenter ffydd yr hwnnw, neu'r honno a gamodd gyntaf i'r dŵr gan wybod, gwybod fod pob peth yn bosibl i Dduw, gyda Duw.

**Owain Llŷr Evans**

## Diwrnod y Gweinidogion

**Dydd Llun, 10 Tachwedd 2025**
**Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**








**Amserlen**

| | |
|---|---|
| 10:00 | Te / Coffi a Defosiwn |
| 10:30 | Gair gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol |
| 10:45 | 'Dietrich Bonhoeffer: gweld y byd drwy lygaid ffydd' |
| 11:00 | 'Dod i adnabod Dietrich Bonhoeffer' – *Parchg Gwilym Tudur* |
| 12:00 | Trafodaeth ar ddyfyniadau Dietrich Bonhoeffer |
| 12:30 | Cinio |
| 13:15 | Arddangosfa 'Aduniad: Beiblau Mawr Harri'r VIII a Thomas Cromwell' |
| 14:30 | "Bydd Oedfa'r Sul nesaf dan ofal ChatGPT ac A.I.": Y defnydd o ChatGPT ac AI – *Parchg Dylan Rhys Parry* |
| 15:30 | Defosiwn i gloi'r diwrnod |
| 15:45 | Paned, cacen ac ymadael |

*Ym mlwyddyn cofio 80 mlynedd ers marwolaeth y gweinidog a'r diwinydd Dietrich Bonhoeffer, down i'w adnabod yn well, a deall ei ymateb i sefyllfaoedd ac amgylchiadau penodol yn ei ddydd, cyn ystyried ein hymateb ni i ddatblygiadau'r byd cyfoes.*



**Cofrestru**

Cofrestwch yn brydlon erbyn **dydd Gwener, 24 Hydref** os gwelwch yn dda.

**01792 795888**
**carwyn@annibynwyr.cymru**

*Darperir cinio i bawb. Nodwch unrhyw anghenion dietegol wrth gofrestru.*

# Barn Annibynnol

## Tymor y coelcerthi

Mae atgofion plentyndod o wythnos gyntaf mis Tachwedd yn rhai melys iawn. A hithau'n tywyllu'n gynnar, roedd tipyn o frys ar ôl dod adre o'r ysgol i gasglu'r stwff olaf wrth adeiladu'n coelcerth Guto Ffowc. Fuon ni ddim yn rhai mawr am 'Penny for the Guy', ond roedd bechgyn ein pentre ni, ac un o'r merched, yn rhai brwd iawn am adeiladu coelcerth enfawr yn un o gaeau'r pentref. Wrth gofio nôl i'r dyddiau hynny, fe welaf yr angen mawr am goelcerthi yn 2025.

Roedd ein gwaith adeiladu yn ymdrech sylweddol, ac yn un ddemocrataidd. Roedd tipyn o bawb o ryw oedran yn chwarae eu rhan. Ein gwaith ni fel plant oedd llusgo darnau o goed, palets sbâr, hyd yn oed teiars a darnau o asbestos (wir...) a'u gosod fel tŵr uchel mewn cae. Wrth gwrs, y bwriad oedd adeiladu coelcerth o leia'r un uchder ag un llynedd. Roedd oedolion y pentref yn help mawr i ni, gyda nifer yn dod mâs i'n cyfarch ar ein ffordd adre o'r ysgol i ddweud wrthon ni alw rownd y bac i gasglu canghennau o goed oedd wedi eu torri ar ddiwedd yr haf. Nid yn unig roedd pob oedran wrthi, ond roedd croeso i beldroedwraig orau'r pentref hefyd. Doedd neb yn codi cwestiwn os oedd hwn yn jobyn addas i ferch. Roedd ganddi sgiliau penodol a chyflenwad o siocled, a theulu oedd wastad yn gallu cael gafael ar y palets pren angenrheidiol i roi sylfaen gadarn i'n coelcerth.



### Perchnogaeth

Efallai mai symbol yw'r goelcerth Guto Ffowc i mi erbyn hyn o'r hyn sydd ei angen ar eglwysi i fod yn aelodau iach o'n cymunedau. Mae angen dod o hyd i ffyrdd o gael aelodau'n pentrefi a'n trefi i deimlo perchnogaeth dros rannau o'n gwaith a'n cenhadaeth. Mae angen i bobl deimlo eu bod yn gallu cyfrannu at ein prosiectau fel eglwysi, ac mae angen i ni allu gwneud defnydd o sgiliau amrywiol bobl – sydd o bosib yn teimlo eu bod y tu fâs i'n cwmpawd eglwysig.

Er mai un ferch oedd yn rhan o'n gwaith ni fel plant, gofynnodd neb gwestiwn am ei rhywedd na'i rhywioldeb ac mae ei chyfraniad hi i'n cymuned ni yn parhau hyd at heddiw wrth i ni dynnu at oed ymddeol.

Fodd bynnag, mae mwy i symbolaeth y coelcerthi nag atgofion plant yn eu hadeiladu. Roedd y cyffro o'i thanio a'i gweld yn llosgi'n ulw yn brofiad arbennig. Mae hyn yn gwneud i mi feddwl am rai pethau sydd angen i ni eu llosgi'n ulw yn ein bywydau crefyddol yn 2025.

### 'Bydd dim cwrdd nawr am dair wythnos...'

Mae nifer fawr o'n heglwysi yn gaeth i gysyniad hierarchaidd o weinidogaeth. Mae clywed am eglwysi sy'n cwrdd unwaith y mis am gyfnodau o'r flwyddyn, am nad oes gweinidog ar gael i bregethu, yn codi arswyd arna i. Beth ddigwyddodd i weinidogaeth yr holl saint? Beth ddigwyddodd i bwysigrwydd cymuned a chyfranogiad? Rwy'n tybio mai un cam cyn rigor mortis yw'r methiant i gyfarfod. Beth am gwrdd dros baned, darlleniad byr ac i rywun ddarllen neu wneud sylw ar fater o bwys sy'n codi, neu ddefnyddio munud i feddwl o'r radio neu e-fwletin Cristnogaeth21, neu hyd yn oed eitem o'r *Tyst* fel sail? Beth am roi coelcerth yn 2026 o dan y syniad o eglwys sydd ond yn gallu ymgynnull pan fo gweinidog yn bresennol?

### Beth am gynnau tân...

Mae'n bosib bod yna sawl coelcerth arall i'w cynnau hefyd. Fe ddiflannodd ein dyhead i olchi'r Ethiop du yn wyn o'n llyfrau emynau, ond yno o hyd mae emynau sydd yn hotsh potsh anaddas o frawddegau a diwinyddiaeth sydd yn estron i ni heddiw. Bydden i'n croesawu fersiwn slimline o *Caneuon Ffydd* erbyn hyn! Byddai'n dda rhoi tomen o emynau ar y goelcerth.

Thema gyson i mi yw fy sgyrsiau gyda phobl sydd wedi colli yn llwyr eu harfer o fynychu eglwys neu gapel, ond sydd heb golli eu hymrwymiad i Iesu. Mae'r domen o ddiwinyddiaeth oedd yn rhan o'u magwraeth wedi hen redeg yn hesb iddyn nhw, ond yr hyn sydd o hyd gyda nhw yw eu hedmygedd o Iesu. Un peth rwy'n ddiolchgar iawn amdano yw nad y'n ni fel Annibynwyr yn adrodd credo Nicea yn ein hoedfaon. Fodd bynnag, mae rhychwant y gredo honno yn gwbl ganolog i'n traddodiad. A hithau'n 2025, mae hi'n flwyddyn pen-blwydd 1,700 oed Nicea, a byddai'n dda gweld coelcerth go fawr yn mynd oddi tani. Sut ar wyneb daear y gallwn dderbyn fel credo ganolog Cristnogaeth yn 2025 un sy'n adrodd am enedigaeth wyrthiol Iesu ac wedyn am ei farwolaeth arteithiol heb wneud sylw o unrhyw fath am ei fywyd, ei ffordd na'i ddysgeidiaeth? Caniatawyd credo am yr



Iesu arallfydol am resymau 'gwleidyddol' gan yr Ymerodraeth Rufeinig yn 325 OC, tra'n osgoi Iesu gweithredol, ymarferol, radical y gwynfydau, fyddai wedi bod yn her i ymerodraeth dreisgar a chreulon. 1,700 o flynyddoedd yn ddiweddarach mae'r hyn oedd yn dderbyniol i'r Ymerodraeth Rufeinig yn dal i gario'r dydd yn ein heglwysi. Coelcerth amdani, fel y gall Iesu'r gwynfydau ein herio a'n hysbrydoli. Mae ein cymunedau angen y gwres o'r Iesu hwnnw, ac o'r eglwys honno.

**Geraint Rees**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

---

Cymdeithas Annibynwyr y Byd
Y Comisiwn Diwinyddol mewn cydweithrediad â'r Congregational Library and Archives, Boston

Cynulleidfaoliaeth Armenaidd (nid Arminaidd!)

### Y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol

Sgwrs ar Zoom gan

**Y Parchg Ddr Harountune Selimian**

Llywydd Cymdeithas Annibynwyr y Byd

**12 Tachwedd 2025**
**6.00 – 7.00pm**

I gael cod angenrheidiol i gofrestru, anfoner at Geraint Tudur (geraint.tudur@btinternet.com)

Mae Haroutune Selimian yn gweinidogaethu yn Syria ac wedi bod trwy'r daeargryn a gafwyd yno yn 2023, a'r chwyldro gwleidyddol yn 2024, gan arwain ei gynulleidfa i ymateb i'r cyfan fel Cristionogion, fel dilynwyr Iesu Grist.

Y mae bob amser yn werth gwrando arno.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Ann Griffiths


Ar 24 Medi fe aeth aelodau o Gyfundeb Annibynwyr Meirion ar daith i ardal yr emynyddes Ann Griffiths, yn Sir Drefaldwyn.

Cafwyd anerchiad gan Delyth a Nerys, dwy o aelodau Capel Coffa Dolanog. Wrth gwrs tra roeddem yno roedd yn rhaid canu un o emynau Ann a chafwyd gwefr wrth ganu 'Wele'n Sefyll' yn y capel a godwyd er cof amdani. Yna ymlaen i Dolwar Fach, ble unwaith eto cafwyd sgwrs ddifyr gan Linda, am hanes y tŷ a theulu Ann Griffiths.

I ddiweddu'r noson fe ddaru pawb ymgynnull yn y Cann Office, Llangadfan i fwynhau pryd o fwyd a chymdeithasu. Taith fywiog a phawb wedi mwynhau, edrychwn ymlaen at y daith nesaf!

**Euron Hughes**






## Bore o hyfforddi yn Bethania, Tymbl



Mae erbyn hyn yn gyffredin ymhlith pawb ohonom gydnabod pa mor hanfodol yw cael gwiriad DBS, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant neu bobl fregus yn ein heglwysi. Pleser yw nodi fod diaconiaid a swyddogion Eglwys Bethania, Tymbl, yn cymryd y mater hwn o ddifrif.

Ar fore Llun, 28 Medi, daeth y criw ynghyd yn awyddus i gymryd rhan yn y sesiwn hyfforddiant. Mae'r sesiwn, sy'n para tua dwy awr, yn cynnwys llawer o egwyddorion sydd yn synnwyr cyffredin. Serch hynny, mae'n werthfawr cael ein hatgoffa o'n cyfrifoldebau drwy gyfrwng yr hyfforddiant hwn, ac i atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddiogelu.

Os nad ydych wedi mynychu hyfforddiant ers cryn amser, beth am i ddiaconiaid a swyddogion ein heglwysi neilltuo dwy awr i ddilyn un o'r sesiynau hyn? Gellir cwblhau'r hyfforddiant ar-lein, neu drwy drefnu gyda'r Panel Cydenwadol i rywun i ddod atoch i gynnal y sesiwn yn eich ardal.

Mae'n bwysig cofio hefyd fod disgwyl i bob gweinidog adnewyddu ei hyfforddiant bob pedair blynedd. Nid yw llenwi ffurflen DBS ar ei phen ei hun yn ddigonol, gan nad yw hynny'n cynnig arweiniad ymarferol ar sut i ofalu am bobl fregus. Nid yw un sesiwn bob pedair blynedd yn ormod i ofyn, ac mae cymryd rhan mewn cwrs o'r fath yn arwydd clir o ymrwymiad difrifol i ddiogelu o fewn bywyd yr eglwys.

**Jill-Hailey Harries**
(Swyddog Elusen ac Eiddo)

## Rhannu'ch Stori

Hoffwn ddiolch i'r eglwysi hynny sy'n anfon ataf gopïau o'u cylchgrawn, llythyr gweddi, neu e-bost yn gyson. Y mae cymaint o ddeunydd yn cael ei baratoi gennych ar gyfer eich cynulleidfaoedd ond mae angen rhannu ein straeon, ein gweithgareddau a'n gweledigaeth yn ehangach er mwyn ysbrydoli ac annog ein gilydd. Os ydych chi'n paratoi gohebiaeth gyda'ch aelodau, beth am ei rannu ymhellach gyda darllenwyr *Y Tyst*? Oherwydd eich bod yn ei ddarparu yn barod ni fyddai'n golygu unrhyw waith ychwanegol i chi.

Yr eglwysi sy'n anfon cylchgrawn/e-bost atom ar hyn o bryd yw: Y Tabernacl, Porthaethwy; Capel y Nant, Clydach; Salem, Caernarfon; Gofalaeth Bro Aled, Llansannan; Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam; Peniel; Gofalaeth Caerfyrddin; Capel Mair, Aberteifi; Seion, Aberystwyth; Hope Siloh; Minny Street, Caerdydd; Seion Drefach ac Ebeneser, Caerdydd.

Byddai'n braf cael rhagor

**Y Gol. Alun Tudur**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*